COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

## Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

**Ymarfer Hap-samplu**

**gan y**

**Panel Craffu**

# Adolygiad o Warediadau y Tu Allan i'r Llys sy'n ymwneud â throseddau cyllyll a throseddau rhywiol

**(Medi 2020 – Ebrill 2021)**

**Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel**

**Gorffennaf 2021**

## Cynnwys

1.0 Trosolwg .............................................. **Error! Bookmark not defined.**
2.0 Cefndir, diben a methodoleg .................. **Error! Bookmark not defined.**
3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel .... **Error! Bookmark not defined.**
4.0 Camau gweithredu a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod panel diwethaf .. **Error! Bookmark not defined.**
5.0 Arfer da ................................................ **Error! Bookmark not defined.**
6.0 Meysydd sydd angen gwelliant ........................................................ 4
7.0 Ystyriaeth o achosion troseddau rhywiol – drwgdybiedigion ifainc ............... 5
7.1 Ystyriaeth o achosion troseddau cyllyll – drwgdybiedigion ifainc ................. 5
8.0 Ystyriaeth o achosion troseddau cyllyll – drwgdybiedigion sy'n oedolion ...... 6
8.1 Ystyriaeth o achosion troseddau rhywiol – drwgdybiedigion sy'n oedolion .... 8
9.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn ............................................................ 10
10.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol ............................................................ 13

## 1.0 Trosolwg

Mewn cyfarfod o Banel Craffu ar Waredladau y tu allan i'r Llys Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2021, adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion troseddau cyllyll ac achosion troseddau rhywiol yr ymdriniwyd â hwy drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys. Ystyriodd y Panel gyfanswm o 14 achos. Roedd 5 yn ymwneud â drwdybledigion ifainc a 9 yn ymwneud ag oedolion.

Oherwydd y pandemig COVID-19 a chanllawiau'r llywodraeth o ran ymbellhau cymdeithasol, cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir drwy'r rhaglen 'Skype for Business.'

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Mae Aelodau'r Panel ar y cyd yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Pythefnos cyn pob cyfarfod, maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol a ddewiswyd ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna, mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosib, dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb y gwarediadau. **Wrth benderfynu pa gategori mae'r achos yn perthyn iddo, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**

- Barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Sail resymegol dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- Effaith debygol ar y gymuned ;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a
- Dewisiadau eraill posibl a allai fod ar gael.

Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau'r Panel;
- Defnydd amhriodol neu ddiffyg cysondeb â'r polisi; a
- Panel yn methu â chyrraedd canlyniad.

## 3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel

Galliaf i S. J. Picouto. (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llwyr y farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu ar 26 Gorffennaf 2021.

Llofnod: [signature] Y.H.

Dyddiad: 18-10-21

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn y cyfarfod Panel diwethaf

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Cymerwyd cam gweithredu o'r cyfarfod diwethaf mewn perthynas ag achos rhif 15. Nododd y Panel nad oedd y rhesymwaith llawn ar gyfer y canlyniad o Ddatrysiad Cymunedol wedi ei ddogfennu. O'r herwydd, gofynnodd y Cadeirydd am i'r achos gael ei adolygu ac am i resymwaith llawnach gael ei gyflwyno i'r Panel i'w ystyried yn y cyfarfod dilynol.

  Adolygwyd yr achos hwn o fewn y cyfarfod. Nodwyd nad oedd gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau blaenorol a'i fod wedi cyfaddef iddo gymryd yr eitemau (nad oedd werth rhyw lawer), ac ar ôl ymgynghori ag ef, bod y dioddefydd yn fodlon i Ddatrysiad Cymunedol gael ei weinyddu. Gan hynny, o ystyried y rhesymwaith a oedd wedi'i ychwanegu i'r cyfrif, roedd y Panel o'r farn bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol.

## 5.0 Arfer da

Nodwyd yr arfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Nododd y Panel ei fod yn gadarnhaol clywed am y gefnogaeth yr oedd y drwgdybieidgion ifainc yn derbyn gan eu Timoedd Troseddau Ieuenctid.

## 6.0 Meysydd sydd angen gwelliant

Roedd dau faes penodol sydd angen gwelliant a nodwyd o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:

- Roedd gan y Panel amheuon mewn perthynas â thri o'r pedwar achos troseddau cyllyll ieuenctid gan fod y troseddau wedi'u cynllunio ymlaen llaw.

- Ystyriodd y Panel fod tri o'r achosion troseddau oedolion wedi'u trin yn amhriodol. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod y gwarediad yn groes i bolisi'r Heddlu. Dylai achosion 7, 12 ac 14 fod wedi derbyn Rhybudd Amodol yn unol â'r Polisi. Cytunwyd y byddai swyddogion yn cael eu hatgoffa am y Polisi mewn perthynas â gwarediadau tu allan i'r llys ar gyfer troseddau cyllyll a throseddau rhywiol.

## 7.0 Ystyriaeth o achosion troseddau rhywiol – drwgdybiedigion ifainc

Ystyriwyd un achos trosedd rhywiol. Ymdriniwyd â'r achos drwy Rybudd Ieuenctid.

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 1 |

Nodir arsylwadau'r Aelodau Panel isod.

**Achos 1**

Roedd y Panel o'r farn bod yr achos hwn, lle'r oedd y drwgdybyn wedi dinoethi ei hun i'r dioddefydd mewn man cyhoeddus, wedi ei waredu'n briodol. Roedd hyn oherwydd oed ifanc y drwgdybyn a'r ffaith ei fod yn ymgysylltu'n dda â chymorth gan y Tîm Troseddau Ieuenctid.

**Asesiad y Panel: Priodol**

## 7.1 Ystyriaeth o achosion troseddau cyllyll – drwgdybiedigion ifainc

Ymdriniwyd ag un achos drwy Rybudd Ieuenctid, un drwy Ddatrysiad Cymunedol, a dau drwy Rybudd Amodol Ieuenctid.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Priodol | 1 |
| Priodol gydag amheuon | 3 |

Nodir arsylwadau'r Aelodau Panel ar bob achos isod:

**Achos 2**

Roedd gan y Panel amheuon o ran yr achos hwn, lle y derbyniodd unigolyn Rybudd Ieuenctid am ddigwyddiad lle'r oedd y drwgdybyn wedi cario cyllell i'r ysgol yn ei fag. Roedd y Panel o'r farn ei fod yn gadarnhaol gwybod bod yr unigolyn hwn yn derbyn cymorth gan y Tîm Troseddau Ieuenctid, oherwydd yr oedd yn agored iawn i niwed ac roedd ganddo anghenion cymhleth. Roedd gan y Panel amheuon gan fod euogfarn flaenorol gan y drwgdybyn ar gyfer trosedd yn ymwneud â chyllell ac oherwydd bod y digwyddiad wedi'i gynllunio ymlaen llaw.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 3**

Rhoddwyd Rhybudd Amodol Ieuenctid i'r unigolyn am ddigwyddiad lle'r oedd y drwgdybyn wedi'i ddal â chyllell gegin fawr yn ei feddiant. Roedd gan y Panel amheuon ynglŷn â'r gwarediad hwn gan fod y digwyddiad wedi'i gynllunio ymlaen llaw ac roedd yr unigolyn yn gwrthod ymyrraeth a chefnogaeth.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 4**

Rhoddwyd Rhybudd Amodol Ieuenctid i'r unigolyn hwn am fygwth trywanu'r dioddefydd wrth ddal cyllell. Roedd y Panel o'r farn bod y gwarediad hwn yn briodol ar gyfer lefel y drosedd. Roedd yr unigolyn mewn perygl o aildroseddu, a chadarnhaol oedd nodi amodau'r Rhybudd Amodol, sef bod yn rhaid i'r unigolyn dderbyn cymorth ac ymyrraeth.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 5**

Roedd gan y Panel amheuon ynglŷn â'r achos hwn, lle'r oedd unigolyn wedi derbyn Datrysiad Cymunedol Ieuenctid ar gyfer digwyddiad lle'r oedd unigolyn wedi'i ddal â chyllell gegin fach yn ei feddiant ar dir ysgol. Roedd yr unigolyn yn agored i niwed, a theimlai'r Panel bod angen cymorth ac ymyrraeth i helpu'r drwgdybyn hwn â'i feddyliau seicolegol, a oedd yn destun pryder.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

## 8.0 Ystyriaeth o achosion troseddau cyllyll – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd Aelodau'r Panel chwech o achosion troseddau cyllyll a oedd yn ymwneud ag oedolion. Roedd 5 o'r achosion hynny wedi'u trin drwy Rybudd Amodol ac un drwy Rybudd.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr Achosion |
|---|---|
| Priodol | 2 |
| Amhriodol | 2 |
| Priodol gydag amheuon | 2 |

Nodir arsylwadau'r Aelodau Panel ar bob achos isod:

**Achos 6**

Roedd yr achos hwn yn cynnwys y drwgdybyn yn gadael ei gartref o dan ddylanwad alcohol â chyllell yn ei feddiant. Roedd gan y Panel amheuon ynglŷn â'r gwarediad o Rybudd Amodol gan fod euogfarn flaenorol gan y drwgdybyn am arf bygythiol. Er bod hyn dros 8 mlynedd nol, teimlwyd bod angen cymorth ar gyfer yr agwedd trosedd gyllell. Yn gadarnhaol, roedd yr unigolyn yn derbyn cymorth gan Kaleidoscope ar gyfer ei yfed fel rhan o'r amodau.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 7**

Roedd yr achos yn cynnwys canfod y drwgdybyn â chyllell fawr yn ei gar. Canfu'r Panel bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol gan fod yr unigolyn wedi derbyn Rhybudd. Mae polisi'r heddlu'n dweud y dylid rhoi Rhybudd Amodol o leiaf ar gyfer troseddau cyllyll.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

| |
|---|
| **Cam Gweithredu 1:**<br><br>**Rhannu dysgu gyda swyddogion mewn perthynas â'r Polisi ar gyhoeddi Rhybuddion ar gyfer troseddau cyllyll.** |

**Achos 8**

Canfu cyllell glo ym mhoced trwser y troseddwr yn yr achos hwn a rhoddwyd Rhybudd Amodol iddo. Roedd gan y Panel amheuon ynglŷn â'r gwarediad hwn oherwydd bod gan y drwgdybyn euogfarnau blaenorol, er bod hyn gryn amser yn ôl. Roedd y Panel o'r farn y dylai'r drosedd hon o bosibl fod wedi'i chyhuddo oherwydd y troseddau niferus sy'n gysylltiedig â'r un digwyddiad, gan gynnwys: difrod i eiddo, ymddygiad ymosodol dan ddylanwad alcohol, meddu ar gyllell ac ymddangos fel pe bai'r cyfyngiadau teithio COVID-19 yn cael eu torri.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 9**

Canfu'r drwgdybyn hwn â chyllell glo yn nrws ei gerbyd. Rhoddwyd Rhybudd Amodol i'r drwgdybyn, ac ystyriwyd bod hyn yn briodol ar gyfer lefel y drosedd.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 10**

Rhoddwyd Rhybudd Amodol i'r drwgdybyn hwn am fod ag eitem â llafn yn ei feddiant. Nid oedd unrhyw bryderon gan y Panel mewn perthynas â'r gwarediad hwn gan mai hon oedd trosedd gyntaf y drwgdybyn, roedd yn unol â'r polisi, ac roedd yr unigolyn yn derbyn cymorth fel rhan o'r amodau.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 11**

Canfu cyllell glo ym meddiant y drwgdybyn yn yr achos hwn wrth ei chwilio yn dilyn digwyddiad yfed a gyrru. Roedd y Panel o'r farn bod y gwarediad o Rybudd Amodol yn amhriodol gan fod nifer o euogfarnau blaenorol gan yr unigolyn. Holodd y Panel hefyd am ganlyniad y drosedd yfed a gyrru. Teimlwyd y dylid fod wedi ymdrin â'r drosedd gyllell a'r drosedd yfed a gyrru gyda'i gilydd yn y llys.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

## 8.1 Ystyriaeth o achosion troseddau rhywiol – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd yr Aelodau Panel dri achos trosedd rhyw sy'n ymwneud ag oedolion. Roedd un achos wedi'i drin drwy Rybudd amodol, roedd un wedi'i drin drwy Rybudd, ac roedd un wedi'i drin drwy Ddatrysiad Cymunedol.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 1 |
| Amhriodol | 2 |

Nodir arsylwadau'r Aelodau Panel ar bob achos isod:

**Achos 12**

Roedd y troseddwr yn yr achos hwn mewn perthynas â merch 14 oed ac roedd wedi rhoi brathiad cariad ar ei gwddf. Roedd y Panel o'r farn bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol drwy Rybudd gan fod y polisi'n dweud mai Rhybuddion Amodol yw'r gosb leiaf ar gyfer troseddau rhywiol. Roedd y Panel o'r farn bod y gwarediad hefyd yn amhriodol oherwydd difrifoldeb y drosedd a'i fod yn cynnwys bygythiadau i ladd. Teimlwyd bod gan y troseddwr hanes o ymddygiad sy'n destun pryder ac y byddai cymorth amodol wedi bod yn fuddiol.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 13**

Roedd yr achos hwn yn ymwneud â'r drwgdybyn yn rhoi ei law i fyny sgert y dioddefydd wrth yfed mewn tafarn. Yr oedd y Panel o'r farn bod Rhybudd Amodol yn briodol. Roedd y drwgdybyn wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad, ac roedd y gwarediad yn unol â'r polisi.

**Asesiad y Panel: Priodol**


**Achos 14**


Roedd y drwgdybyn yn yr achos hwn wedi mynd at y dioddefydd 15 oed sawl gwaith i ofyn am ryw er ei bod wedi gwrthod ac wedi dweud wrtho beth oedd ei hoed. Teimlai'r Panel nad oedd Datrysiad Cymunedol ar gyfer y drosedd hon yn briodol. Roedd y gwarediad hwn yn erbyn y polisi, a dylai fod wedi'i ddwysau oherwydd difrifoldeb y drosedd. Roedd gan y drwgdybyn hwn euogfarnau blaenorol a phryderon o ran camddefnyddio alcohol. Teimlai'r Panel y dylai'r unigolyn hwn fod wedi'i gyhuddo.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**


## 9.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

Mae'r siartiau isod yn dangos asesiadau'r Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.







Ers Tachwedd 2013 mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o waredіadau, fel y gwelir yn y graff isod.





O'r 445 o achosion a archwiliwyd rhwng Ebrill 2013 a Gorffennaf 2021, cafodd 58% eu hasesu'n briodol, 20% yn amhriodol, ac 20% yn briodol gydag amheuon. Methodd y Panel â dod i ganlyniad mewn 2% o'r achosion.


Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.



Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad fesul math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 a Gorffennaf 2021.




Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer gwirioneddol o achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 a Gorffennaf 2021.



## 10.0 Ffocws y Panel yn y Dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, roedd y Panel eisiau trafod byrgleriaethau a lladradau yn y cyfarfod nesaf ar 18 Hydref 2021.